

Ysgol Botwnnog

Yn ôl i'r Ysgol



Gweithwyr a chyfarwyddwyr R. Williams a'i Gwmni. Yn y blaen ar y dde mae Tomos Henri (Rheolwr Gyfarwyddwr), Gwen Williams a Carys Williams (dwy o'r Cyfarwyddwyr).

Pan oedd y rhan fwyaf ohonom yn edrych ymlaen am gyfnod hir i ffordd o'r ysgol dros yr haf dychwelyd wnaeth criw o gyn ddisgyblion sydd yn gweithio i adeiladwyr R. Williams a'i Gwmni. Braff oedd deall fod cwmni lleol wedi ennill cytundeb i osod ffenestri yn yr ysgol. Cwmni sy'n cyflogi 50 o weithwyr lleol a nifer fawr ohonynt yn gyn ddisgyblion Ysgol Botwnnog. Diolch i chwi am y gwaith graenus wedi ei gwblhau mewn pryd.

Breuddwydio â'r Sganar fMRI

Dyma erthygl wyddonol Siriol a ddaeth i'r brig yn yr Eisteddfod. Gobeithir cyhoeddi gwaith y ddwy arall yn y misoedd i ddod.



Siriol Bryn Parry

Mae'r syniad o freuddwydion yn dod yn realiti, yn wyddonol yn swnio'n hurt. Mae breuddwydio i ni fel pobl yn rhywbeth rydym yn ei wneud bob noson ac mae'r gallu i dynnu llun ein breuddwydion yn wir yn swnio'n rhywbeth fuasai ond yn digwydd mewn breuddwyd. Aeth tim o ymchwilyd o'r Almaen i ymchwilio ar sganiau o'r ymenydd a gafodd eu tynnu yn ystod cyfresi o freuddwydion i gael dealltwriaeth o sut mae'r ymenydd yn cyfuno meddyliau ac atgofion o freuddwyd. Roeddent am gynnal arbrawf i arbrofi nifer o wahanol bobl wrth gysgu a breuddwydio wrth orwedd mewn peiriant fMRI. Nid oeddent yn disgwyl i'r bobl freuddwydio yn ddwys, ond wrth iddynt fynd i gysgu, roedd rhaid iddynt dychmygu eu hunain yn gwasgu eu llaw dde yn gyntaf ac yna eu llaw chwith. A'r canlyniadau, wel dim ond un person lwyddodd i freuddwydio am wasgu ei law gan fod ei sganiau fMRI yn dangos wrth iddo freuddwydio ei fod yn

gwasgu ei law, roedd darn o'i ymenydd a alwir yn 'sensorimotor cortex' wedi dod yn actif. Mae'r darn yma o'r ymenydd yn helpu gyda'n symudiadau. Pan roedd ei law dde yn cael ei gwasgu, roedd ei 'sensorimotor cortex' ar ochr chwith ei ymenydd yn weithredol. Doedd hynny ddim syndod i'r gwyddonwyr gan eu bod eisioes yn gwybod bod cyhyrau'r ymenydd yn gweithio ffordd arall rownd.

Mae peiriant MRI yn bwysig iawn ar gyfer delweddu rhannau mewnol o'r corff ac i gofnodi gweithrediad yr ymenydd. Mae'n defnyddio maes magnetig i roi egni i molecylau sydd yn y gwaed a rhannau'r corff, ac mae hyn yn creu maes magnetig o wahanol rhannau o'r gorff. Yn ogystal mae'n dibynnu ar sut mae'r corff yn gweithio. Yn wahanol i peledr X nid oes risg o ymbelydredd.

Yn 2003 ennillod y gwyddonwyr Paul Lauterbur a Sir Peter Mansfield o Brifysgol Nottingham wobr Nobel am eu gwaith yn defnyddio MRI ym myd meddygaeth. Dengys hyn pa mor hanfodol bwysig ydi'r peiriant MRI i ddarganfod yr anhysbys o fewn yr ymenydd. Gyda datblygiad technoleg yr unfed ganrif ar hugain mae gwyddonwyr yn gallu ymchwilio yn fwy trylwyr ym maes ffisegol, cemegol, biolegol a meddygol.

Efallai yn y dyfodol bydd gwyddonwyr yn gallu tynnu llun o'n breuddwydion gan ddefnyddio technoleg hollol newydd sy'n anghredadwy wrth feddwl am y peth heddiw. Er hynny bydd beth sydd yn ysgogi breuddwydion yn dal yn ddirgelwch am beth amser i ddod.

Siriol Bryn Parry Bl 11.

Newyddion

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion o Flwyddyn unarddeg y llynedd ar eu canlyniadau gwych yn yr arholiadau TGAU. Diolch i'r disgyblion am eu gwaith caled, y rhieni am eu cefnogaeth ac i'r staff am eu paratoi mor drwyadl. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Mewn cystadleuaeth erthygl Y Gwyddonydd yn Eisteddfod Sir Ddinbych eleni gofynnwyd i ddisgyblion ysgol ysgrifennu erthygl fer yn nodi pa ddarganfyddiad gwyddonol oedd o ddiddordeb arbennig iddyn nhw. Er ddim yn fuddugol derbyniodd tri disgybl o Flwyddyn 11 glod yr Eisteddfod am eu gwaith:- Heather Smith (erthygl ar ddefnyddio ceir sy'n rhedeg ar hydrogen); Lois Llywelyn Williams (erthygl ar broblemau trafniadaeth pan ddaw yr olew i ben ac yn cyflwyno'r car Honda FCX); Siriol Bryn Parry (erthygl ar ddefnydd peiriant MRI i ddatgelu cyfrinachau'r ymenydd). Llongyfarchiadau i'r tair.

Diwedd y tymor diwethaf, mewn cystadleuaeth ddringo i bobl ifanc wedi ei threfnu gan 5 x 60 yn hen stiwdio Barcud Caernarfon daeth llwyddiant i ran Sophie Wilson (Bl 9) a ddaeth yn ail, ac Ella Windsor (Bl 9) a ddaeth yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf trefnodd disgyblion Blwyddyn 10 wythnos o Brofiad Gwaith iddynt eu hunain gyda chyflogwyr lleol. Bu yn wythnos lwyddiannus i'r mwyafrif o'r disgyblion gyda phawb wedi mwynhau a chael budd o'r profiad. Hoffem fel ysgol ddiolch o galon i'r holl gyflogwyr a fu mor barod i gymryd rhan yn y cynllun eleni, gobeithio y gallwn gydweithio eto yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau i Ms Awen Griffith ar ddod yn ail yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda pharti llefaru Genod Llŷn a Mrs. Helen Evans ddaeth yn drydydd yn yr un gystadleuaeth gyda pharti Cafflogion.

Ar ddechrau blwyddyn fel hyn mae nifer o wynebaw newydd ar staff yr ysgol. Croeso cynnes i Mrs. Eirwen Jones fel Cydgysylltydd Anghenion Arbennig, Mr. Geraint Williams a Mr. Winston Halliday i'r Gyfadran Wyddoniaeth, Mrs. Sharon Francis Williams i'r Gyfadran Mathemateg, Miss Elain Wyn Jones fel Uwch Gymhorthydd Llythrennedd (un diwrnod) a Ms Menna Davies hefyd fel Uwch Gymhorthydd Llythrennedd (4 diwrnod). Dymuniadau gorau i Ms Eleri P. Williams sydd wedi ei dyrchafu'n Bennaeth y Gyfadran Wyddoniaeth. Croeso'n ôl hefyd i Mrs. Sioned Medi Parri a Ms Ffion Jones yn dilyn cyfnod mamolaeth.

Gyda thristwch mawr yr oeddem yn rhannu'r newyddion am waeledd Erin Hughes, Bl 11. Gobeithio'n fawr dy fod wedi troi ar wella erbyn hyn a byddwn yn cael dy groesawu yn ôl i'r ysgol cyn gynted â phosib. Mae colled ar dy ôl fel un o olygyddion y dudalen yma mae hynny'n siŵr.